

## Drama am Mari Jones

- STORIWR ▶ Roedd Jacob a Molly Jones a'u merch Mari yn deulu tlawd oedd yn byw ym mhentref Ty'n-ddol yng ngogledd Cymru 200 mlynedd yn ôl. ▶ Gwehydd oedd Jacob wrth ei waith a byddai'n gwerthu'r brethyn yn y marchnadoedd lleol. Roedd yn gorfod defnyddio hen beiriant a fyddai'n torri'n aml. Er mwyn cael dau ben llinyn ynghyd roedd rhaid iddo wneud cymaint â phosib o frethyn, a byddai'n aml yn gweithio'n hwyr yn y nos i wneud hynny. Ond roedd Molly'n aml yn mynd ato i'w annog. Roeddent yn deulu tlawd ond yn deulu hapus. ▶ Un diwrnod aethant i'r farchnad yn Abergynolwyn i werthu eu brethyn, gan obeithio gallu prynu blawd a chaws yno.
- MARI O mam, rydw i yn edrych ymlaen at fynd i'r farchnad. Fydd Beti yno?
- MOLLY Bydd. Mae Beti, dy gyfnither bob amser yn mynd yno ar yr un diwrnodau â ni.
- JACOB Gwna'n siŵr nad wyt yn siarad â hi drwy'r dydd, Mari. Mae'n rhaid i ni fod adref cyn iddi nosi ac mae'n ffordd hir i'w cherdded.
- Saib*  
MARI ▶ O Beti, rydw i'n falch o dy weld. Mae'n braf cael gwneud rhywbeth gwahanol i weithio mor galed adref.
- BETI O Mari! Mae'n gyffrous, tydi?
- MARI Beth sy'n gyffrous Beti? .... dywed wrthyf .... dywed wrthyf ....
- BETI Mae ysgol yn agor yma, a byddwn yn cael gweld ein gilydd bob dydd.
- MARI Bob dydd! A byddwn yn cael dysgu darllen .... Wyt ti'n siŵr Beti?
- BETI Yn hollol siŵr
- STORIWR. Yng Nghymru ar y pryd, ychydig iawn o bobl oedd yn gallu darllen neu ysgrifennu. Ar gyfer pobl gyfoethog yn unig roedd ysgolion. Felly gallwch ddychmygu pa mor falch oedd y merched o glywed y newyddion.
- MARI Mae hyn yn newyddion gwych.
- BETI Fe'th gwelaf yn fuan Mari.
- Saib*  
MARI ▶ Mam, dywedodd Beti wrthyf fod ysgol yn agor yma.... Ydi hynny'n wir?

- MOLLY Ydi Mari. Bydd yn agor yn fuan ac yn para am 3 mis. Ond bydd rhaid i ti orffen dy waith cyn mynd yno.
- STORIWR ► Felly gwnaeth Mari ei gwaith. Gweithiodd yn galed iawn, ond yn hwyliog, yn glanhau'r tŷ a gweithio yn yr ardd, yn tynnu'r chwyn oedd yn tyfu yn yr ardd lysiau. ► Tra roedd yn gweithio byddai Mari'n cofio clywed pobl yn siarad am y Parch Thomas Charles, sef pregethwr oedd yn teithio ledled gogledd Cymru yn siarad am Iesu Grist a'r Beibl. Byddai'n ymweld â chapeli ac yn pregethu am Dduw gydag angerdd, ac yn darllen rhannau o'r Beibl. Arferai ddweud mor bwysig oedd gwybod beth roedd Duw yn ei ddweud. Beth bynnag, dechreuodd Mari fynd i'r ysgol a chwrdd â Mr Ellis, yr athro.
- MR ELLIS ► Nawr blant, rwy'n siŵr eich bod i gyd wedi bod wrthi'n gweithio'n galed adref ac wedi dod yma i ddysgu darllen. Mae'n bwysig ein bod yn gallu darllen er mwyn i ni allu dysgu pethau.
- STORIWR Gwrandawodd pawb yn astud arno, ac yn araf dros yr wythnosau nesaf fe wnaethant ddysgu darllen. Un diwrnod, dywedodd Mr Ellis ...
- MR ELLIS Nawr blant, rydych i gyd yn gwneud yn dda, ond mae Mari'n arbennig yn darllen yn dda iawn. Mari, dewch yma i ddarllen adnod.
- MARI Fi? Ond alla i ddim darllen ....
- MR ELLIS Wrth gwrs y gallwch. Dewch yma, dyna ni.
- MARI ► *Abraham oedd hen, wedi myned yn oedrannus; a'r Arglwydd a fendithiasan Abraham ym mhob dim.*
- STORIWR ► Gwrandawodd bawb ar Mari'n darllen, yn falch iawn drosti. Roedd Beti'n arbennig o falch bod ei chyfnither wedi cael ei dewis i ddarllen. Teimlai Mari fel pe bai ar ben ei digon wrth gerdded adref.
- MARI ► O mam. Rydw i wedi cael diwrnod gwych. Gofynnodd Mr Ellis i mi ddarllen y Beibl i'r dosbarth cyfan.
- MOLLY Da iawn ti, cariad. Sut hwyl gefaist ti?
- MARI Dywedodd Mr Ellis fy mod yn dda iawn ac .... o ....
- MOLLY Beth sy'n bod, cariad?
- MARI Wel beth yw'r pwynt dysgu darllen os nad oes gennym lyfrau? Dim ond pobl gyfoethog sydd â Beiblau.
- MOLLY Roeddwn wedi meddwl hynny Mari, ond ddim am sôn wrthyt.

- MARI Rwy'n gwybod beth wnaif – mi wna i gynilo i brynu un - er ein bod yn dlawd. Fe weithiaf yn galed, a chynilo - hyd yn oed os cymer gan mlynedd i mi wneud hynny – er mwyn i ni gael Beibl yn ein cartref.
- STORIWR Meddylodd Mari am ddarllen y Beibl, a pha mor dda y darllenodd y diwrnod hwnnw, ac yna meddylodd am ei theulu tlawd. Ond roedd yn benderfynol o beidio â rhoi'r ffidil yn y to.
- MOLLY ► Dim ond bara a llysiau i de heddiw, yn anffodus.
- JACOB Mae hynny'n iawn. Mae'r bara'n gynnes a'r llysiau'n ffres. Gadewch i ni ddiolch i Dduw, "Annwyl Dduw, diolch i ti am y bwyd sydd gennym. Wnei di helpu Mari i gynilo am Feibl, os gweli di'n dda. Amen."
- MARI ► Diolch am ddweud eich bod am fy helpu. Ond sut allwn ni wneud hyn?
- JACOB Os wyt ti'n rhoi dy feddwl ar rywbeth ac yn gweithio'n galed, fe gei dy synnu. I ddechrau, fe gei ddefnyddio'r mêl o un o'n cychod gwenyn. Fe gei werthu'r mêl yn y farchnad a chadw'r arian.
- MARI Ac mi alla i wau dillad i'w gwerthu yn y farchnad, ac efallai werthu mwy o lysiau.
- MOLLY Ac fe gei di'r wyau gan un o'n hieir ac un o'n hwyaid. Alla i ddim gadael i ti gael mwy na hynny, oherwydd ein bod eu hangen i ni ein hunain.
- STORIWR Meddylodd Mari yn hir ac yn galed. Roedd bron yn gallu gweld ei hun â Beibl yn ei llaw un diwrnod, ei Beibl ei hun, a'r teulu cyfan yn dysgu beth roedd Duw wedi ei ysgrifennu. ► Edrychodd Jacob a Molly arni, yn rhieni balch, gan wenu ar ei gilydd.
- JACOB Mari, gwna'n siŵr dy fod yn dysgu dy fam a dy dad sut i ddarllen pan gei di'r Beibl.
- PAWB CHWERTHIN
- MARI Diolch mam. Diolch 'nhad.
- STORIWR Clywodd Mrs Evans, gwraig i ffermwr cyfoethog a oedd yn adnabod teulu Mari, am gynllun Mari. Roedd hi eisiau annog Mari, felly un diwrnod ....
- MRS EVANS ► Mari, rwy'n deall dy fod yn gallu darllen yn awr.
- MARI Ydw, Mrs Evans. Dysgais ddarllen yn ysgol Mr Ellis – mae'n braf gallu darllen.

- MRS EVANS Ond Mari, roeddwn yn meddwl, gan fod yr ysgol wedi symud i bentref arall, sut wyt ti'n mynd i barhau i ymarfer darllen? Un peth yw cynilo i brynu Beibl, ond bydd yn cymryd blynyddoedd i wneud hynny. Sut fyddet ti'n hoffi dod i'r fferm i ddarllen y Beibl pryd bynnag y mynni?
- MARI O Mrs Evans! Ydych chi o ddifrif? Byddai hynny'n wych. Mi wna i fynd ati i drefnu pethau'n syth.
- STORIWR Trefnodd Mari fynd i dŷ Mrs Evans bob dydd Sadwrn ar ôl iddi orffen ei gwaith o gwmpas y tŷ. Cerddodd yn llawn cyffro i'r ffermdy hyfryd, yn edrych ymlaen at yr ymweliad.  
....
- CNOC CNOC
- MRS EVANS Mari. Dyma hyfryd. Tyrd i mewn. Dyna ti, drwy'r fan yma, paid â phoeni am dy glocsiau – tyrd drwodd. Dyna ni.  
► Nawr, dyma lle byddaf yn darllen y Beibl fel rheol. Mae'n braf yn y fan yma gyda'r golau dros dy ysgwydd.
- MARI Mae hyn yn wych.  
(yn darllen yn Gymraeg) *Am hynny gan fod i ni y weinidogaeth hon, megis y cawsom drugaredd nid ydym yn pallu*  
- WAW – yr holl straeon yma i mi eu darllen. Cael darllen geiriau Duw!
- STORIWR Cyn iddi sylweddoli, roedd yn amser i Mari fynd adref.
- MARI ► Diolch Mrs Evans
- MRS EVANS Mae'n iawn, Mari fach. Fe'th gwelaf ddydd Sadwrn nesaf. Hwyl.
- MARI Rydw i'n teimlo mor hapus fel y byddwn yn gallu canu a dawnsio'r holl ffordd adref. Mae meddwl y bydd gennym Feibl yn ein cartref ein hunain un diwrnod yn werth yr holl waith caled a'r cynilo. Does gen i fawr o arian eto - ond dim ond megis dechrau ydw i.
- STORIWR ► Gweithiodd Mari'n galed flwyddyn ar ôl blwyddyn. Er bod casglu mêl yn beryglus, roedd hyd yn oed hynny'n werth yr ymdrech. Er ei bod yn anodd ar adegau, meddyliodd Mari am yr hyn roedd yn gweithio tuag ato. Breuddwydiodd am gael ei Beibl ei hun. Yna roedd yn teimlo'n well ac yn bwrw ati. ► Roedd casglu'r wyau'n haws .... yn enwedig pan ddaeth Beti i'w helpu. Roedd pob wy'n cyfrif ac roeddent yn ofalus i beidio â thorri'r un ohonynt. Wrth i'r blynyddoedd fynd heibio, byddai Mari'n aml yn cymryd seibiant o'r gwaith, yn eistedd i lawr ac yn meddwl am ei Beibl. Un diwrnod aeth Mari i nôl eu bocs arian oddi ar y silff uchel. ► Cyfrifodd yr arian yn ofalus. Roedd wedi bod yn cynilo ers chwe blynedd ac roedd swm

mawr o arian bellach yn y boc. Dechreuodd feddwl am ddarllen ei Beibl ei hun yn ei chartref ei hun gyda'i rhieni. A bellach roedd ganddi ddigon o arian.

- MARI (yn gyffrous) ► Mam, mam, rydw i'n meddwl bod gen i ddigon!
- MOLLY Beth yw hynny Mari ... o, cyfrif dy arian wyt ti .... Wyt ti'n meddwl bod gennyf ddigon?
- MARI (yn gyffrous) Ydw, ydw.
- JACOB Beth yw'r sŵn yna? ... o Mari ...felly rwyf yn meddwl bod gennyf ddigon o arian. Mae'n ddrwg gen i, ond fe wnes i gyfrif yr arian yn gynharach a does gennyf ddim digon eto.
- MARI Roeddwn yn meddwl y byddai gennyf ddigon o arian ar ôl chwe blynedd.
- JACOB Ond Mari, rydw i wedi llwyddo i gynilo ychydig hefyd. Rwy'n meddwl y bydd gennyf ddigon o arian gyda'm arian i.
- MARI ► O diolch, 'nhad. Mae gen i ddigon o arian yn awr i brynu Beibl. Lle allai i brynu un?
- MOLLY Rydw i wedi clywed bod gan y Parch Thomas Charles Feiblau i'w gwerthu, ond mae'n byw yn y Bala, sydd tua 25 milltir i ffwrdd.
- JACOB Mae dy fam a finnau wedi bod yn meddwl. Mae'n ffordd hir iawn, yn enwedig i ferch ar ei phen ei hun. Ond nid ydym yn poeni – rydym yn siŵr y bydd Duw yn edrych ar dy ôl.
- MOLLY Beth am i ti fynd i weld Mr Ellis – bydd Mr Ellis yn gwybod yn union lle mae'r Parch Thomas Charles yn byw.
- STORIWR ► Felly cerddodd Mari i dŷ Mr Ellis a dywedodd wrtho ei bod wedi cynilo digon o arian i brynu Beibl. Roedd Mr Ellis yn falch iawn o glywed hyn ac ar ôl llongyfarch Mari,  
► esboniodd iddi lle'r oedd cartref Mr a Mrs Edwards yn y Bala, a fyddai'n gallu ei helpu. Aeth Mari yn ôl adref, yn meddwl am y daith hir o'i blaen. ► Rhoddodd ychydig o fwyd yn ei bag a ffarwelio â'i rhieni. Roeddent mor falch o'u merch, oedd wedi gweithio'n galed ers chwe blynedd. A dyma hi'n awr yn cychwyn ar daith hir a pheryglus. Roedd y daith yn bleserus ar y dechrau wrth i Mari gerdded trwy gaeau cyfarwydd wrth ymyl tai a ffermydd roedd hi'n eu hadnabod yn dda, ► ond ar ôl mynd heibio i'r tai, daeth Mari at fynyddoedd uchel a llwybrau nad oedd erioed wedi eu cerdded o'r blaen. Roedd Mari'n flinedig wrth gerdded dros y mynyddoedd uchel. ► Roedd rhaid iddi groesi afonydd a nentydd. Ond trwy gydol yr amser, roedd yn diolch i Dduw am y golygfeydd ac yn edrych ymlaen at gyrraedd y Bala. Wrth iddi ddod i lawr o'r mynyddoedd tuag at y Bala ar ôl y daith o 25 milltir, roedd yr haul yn

machlud. ► Gorffwysodd Mari am ychydig wrth geisio cofio'r cyfarwyddiadau at dŷ Mr a Mrs Edwards. Yna ymlaen â hi ar ran olaf y daith, gan ddod o hyd i'r tŷ yn rhwydd. ► Roedd wyneb cyfeillgar yn edrych arni trwy'r ffenest.

CNOC CNOC

- MARI Helo. Mrs Edwards?  
O, helo. Mari Jones yw fy enw. Rhoddodd Mr Ellis gyfeiriad eich tŷ i mi a dweud y byddech chi'n gallu fy helpu i brynu Beibl .... mae'r arian gen i.
- MRS EDWARDS Tyrd i mewn Mari fach, tyrd i gael te gyda ni.
- MR EDWARDS ► Felly Mari, rwy'ti eisiau prynu Beibl ac yn dweud dy fod wedi dod o dŷ Mr Ellis – mae hynny tua 25 milltir o daith dros fynyddoedd garw.
- MRS EDWARDS Wnest ti ddim dod yr holl ffordd ar dy ben dy hun, siawns?
- MARI Wel, do. Rydw i wedi bod yn cynilo ers chwe blynedd ac roeddwn yn gwybod y byddai Duw yn edrych ar fy ôl. Mae hyn mor bwysig i mi a'm teulu. Fe allwch chi fy helpu oni gallwch?
- MRS EDWARDS Wel, Mari fach. Rydw i'n siŵr y bydd gan y Parch Thomas Charles Feiblau. Aiff Mr Edwards â thi i'w weld fory.
- MARI O! Gawn ni fynd yn awr – rydw i'n edrych ymlaen gymaint at gael Beibl.
- MRS EDWARDS Mari fach, mae'n mynd yn dywyll nawr - aros yma heno i orffwys a chysgu - bydd fory yn ddiwrnod bendigedig.
- STORïWR ► Aeth Mari i'r gwely. Roedd yn llawn cyffro ac yn flinedig ar yr un pryd. Cyn iddi syrthio i gysgu dywedodd weddi fechan.
- MARI Arglwydd, diolch i ti am ddod â mi mor bell yn ddiogel. A wnei di fy helpu i brynu Beibl fory fel y gallaf ddarllen dy eiriau. Diolch. Amen.
- STORïWR ► Y diwrnod wedyn, aeth Mr Edwards gyda Mari. Roedd Mrs Edwards yn eu gwyllo drwy'r ffenest, yn meddwl pa mor annwyl oedd Mari. Pan gyrhaeddodd Mari a Mr Edwards dŷ'r Parch Thomas Charles, gwnaethant gnocio ar y drws ac aros.
- PARCH THOMAS CHARLES ► Bore da Mr Edwards, beth sy'n dod â chi yma mor gynnar?
- MR EDWARDS Wel dyma Mari Jones o Dy'n-ddol sydd eisiau prynu Beibl.

STORiWR Adroddwyd yr holl stori ac yna dywedodd y Parch Thomas Charles yn drist nad oedd ganddo Feiblau Cymraeg ar ôl.  
► Roedd Mari mor siomedig. Roedd hi bron â chrio. Yna cofiodd iddi weddio cyn mynd i gysgu, siawns na fyddai Duw yn gadael iddi gael ei siomi.

PARCH THOMAS CHARLES Ond, mae gen i un Beibl Cymraeg ar ôl sydd wedi ei gadw i John Jones o Gricieth. ► Nawr... (*saib*)... mae John Jones yn siarad Saesneg hefyd, felly fe gaiff ddefnyddio Beibl Saesneg am y tro, ac fe gewch chi'r Beibl Cymraeg.

STORiWR Roedd Mari wrth ei bodd – ar ôl yr holl flynyddoedd. Cymerodd yr arian o'i bag a'i ddal yn ei llaw. Roedd uwchben ei digon wrth i'r Parch Thomas Charles roi'r Beibl iddi.

MARI ► O'r diwedd, ar ôl yr holl flynyddoedd – o diolch yn fawr iawn i chi.

PARCH THOMAS CHARLES Croeso, rwyf ti'n sicr yn ei haeddu. Da iawn ti Mari!

STORiWR Dywedodd Mari hwyl fawr ac i ffwrdd â hi ar y daith yn ôl adref, yn cario'i Beibl gwerthfawr. Roedd y ffordd yn ôl yn ymddangos yn llawer cynt. Bu Mari'n canu y rhan fwyaf o'r ffordd, heibio'r nentydd, ► ar hyd llwybrau coediog, yn diolch i Dduw am ei help. Roedd rhieni Mari wedi ei gweld yn cerdded i lawr y llwybr ac aethant at y drws ar frys i'w chrosawu'n ôl. ► Dangosodd Mari ei Beibl iddynt yn falch, ac fe wnaethant ddiolch i Dduw wrth ddathlu ei bod wedi cyrraedd adref yn ddiogel. Ar ôl holl waith caled y teulu dros y blynyddoedd ... ar ôl bod yn benderfynol o ddal ati, roeddent wedi llwyddo o'r diwedd. ► Roedd Mari wedi cael ei Beibl.